
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf trwy Weithredu Gwirfoddol

Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through Voluntary Action



ADRODDIAD EFFAITH

2021 / 2022

Swyddfa Gofrestredig :
NEWVOL yn masnachu fel Cyngor
Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun
LL15 1AF

01824 702441
office@dvsc.co.uk
www.dvsc.co.uk

Elusen Gofrestredig: 1054322
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant: 03132487

@DVSCDenbighshire
@dvsc_denbighshire
@DVSC_Wales

EIN HYMDDIRIEDOLWYR
rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022

Sandra Donoghue *(Cadeirydd)*
Chris Ruane *(Is-gadeirydd)*
Karen Bellis
Syr David Hanson
Gavin Harris
Linzi Jones
Y Cynghorydd Gareth Sandilands

EIN STAFF
rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022

Tom Barham : *Prif Swyddog (o fis Mai 2021)*
Lisa Williams : *Rheolwr Cyllid a Busnes*
Alison Carter : *Rheolwr Menter ac Arloesi*
Sherry Weedall : *Rheolwr Partneriaeth Llesiant*
Rebecca Bowcott : *Swyddog Llesiant Cymunedol*
Gareth Jones : *Swyddog Cymorth i Wirfoddolwyr*
Rhys Hughes : *Swyddog Menter a Dysgu*
Maisie Bentley : *Gweinyddwr Effaith*
Dave Boardman : *Rheolwr Neuadd y Farchnad*
Logan Burgers : *Gofalwr*

PWY YDYM NI

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) yw'r mudiad cymorth annibynnol i'r Trydydd Sector yn Sir Ddinbych. Mae CGGSDd yn galluogi elusennau a grwpiau cymunedol i fod yn fwy effeithiol ac yn fwy cysylltiedig, gan weithio gyda'n gilydd i adeiladu Sir Ddinbych gref a llewyrchus.

Rydym ni'n un o 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol ar draws Cymru, sydd oll yn rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, partneriaeth sy'n cael ei galluogi a'i chyllido gan Lywodraeth Cymru ac yn cyflawni ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ein nod ar y cyd yw galluogi ac uchafu effaith y Trydydd Sector a gweithredu gwirfoddol ar gymunedau ar draws Cymru. Rydym ni'n gweithio fel rhan o'r bartneriaeth hon ochr yn ochr â busnesau, llywodraeth, ymchwilwyr a chyllidwyr.

Rydym ni'n cyflawni ein gwaith cymorth a chefnogaeth ar draws pedair thema :

- **Cyllido Cynaliadwy**
- **Gwirfoddoli**
- **Llywodraethu Da**
- **Ymgysylltu a Dylanwadu**

Rydym ni'n gwneud hyn trwy roi cyngor uniongyrchol, cymorth drwy gyfrwng adnoddau ar-lein, rheoli rhwydweithiau, hwyluso cydweithredu a phartneriaethau, dylanwadu ar y sector cyhoeddus a chodi proffil y Trydydd Sector.

Rydym hefyd yn hyrwyddo platfformau ar-lein Cefnogi Trydydd Sector Cymru, yn cynnwys :
Hwb Gwybodaeth **www.thirdsectorsupport.wales**
Gwirfoddoli Cymru **www.volunteering-wales.net**
Infoengine **www.infoengine.cymru**
Cyllido Cymru **www.funding.cymru**

> Mae CGGSDd yn fudiad aelodaeth ac **roedd gennym ni 236 o aelodau yn ystod 2021-2022**

ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD CGGSDD

Wynebodd CGGSDd lawer o heriau amrywiol yn ystod y pandemig, fel y gwnaeth cymunedau a'r Trydydd Sector y mae'n bodoli i roi cymorth iddynt. Cafodd cydnerthedd ein sefydliad, a chydnerthedd ein tîm talentog, ei brofi dro ar ôl tro, ond gwnaethom addasu, ailfeddwl a chynnal ein cefnogaeth i'n haelodau a'n cymunedau.

Defnyddiodd CGGSDd ei amser yn dda yn ystod y flwyddyn, gan groesawu Prif Swyddog newydd, Tom Barham, ac aelodau newydd rhagorol i'r tîm mewn meysydd gwaith allweddol. Rydym wedi cryfhau ein Bwrdd hefyd gydag aelodau newydd ymroddedig.

Rhoddwyd pwyslais arbennig yn ystod y cyfnod hwn ar adeiladu partneriaethau gwaith rhagorol ag asiantaethau statudol a'r Trydydd Sector yn ogystal â chyda chyllidwyr a phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru eraill yn a thu hwnt i Sir Ddinbych. Rydym ni wedi mabwysiadu dull partneriaeth o reoli prosiectau mawr newydd yn cynnwys ein Neuadd y Farchnad yn Rhuthun, gan weithio â Chadwyn Clwyd ar gais llwyddiannus i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn diweddu'r flwyddyn mewn sefyllfa gref gyda'n hegni wedi'i adnewyddu.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i dîm staff CGGSDd sydd wedi gweithio'n ymroddgar a chyda ffocws arbennig yn ystod y flwyddyn, ac hefyd i'm cyd aelodau ar y Bwrdd, pobl sy'n gwirfoddoli eu sgiliau a'u hamser i'n helpu ni i ddatblygu a wynebu'r dyfodol. .

Sandra Donoghue
Cadeirydd CGGSDd 2022



"Gwnaeth **917 ddod i ddigwyddiadau partneriaeth CGGSDd**, ac roedd **311 yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddiant** yn ystod 2021 -2022

ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG

Rwy'n falch iawn o fod yn Brif Swyddog newydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, a gwasanaethu'r elusen bwysig hon sy'n uchel ei pharch ac yn meddu ar dros chwarter canrif o brofiad, dylanwad ac effaith. Yn dilyn byw a gweithio yn y sir wych hon am gyfnod tebyg, rwy'n sylweddoli fy mod i wedi gweithio â CGGSDd sawl gwaith yn ystod ei ddatblygiad. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y rôl y gallwn ei chyflawni yn y cyfnod anodd rydym ni ynddo.

Mae CGGSDd yn gwneud gwahaniaeth; a chewch ddarllen am hynny yn yr Adroddiad Effaith hwn. Rydym ni'n ddynamig ac yn uniongyrchol gyda'n cymorth, p'un ai ydych chi'n gwirfoddoli eich amser neu'n datblygu eich elusen neu eich grŵp cymunedol. Rydym ni yma i'ch helpu chi.

Mae cael tîm dawnus yn allweddol i fy hyder yn cynnig y cymorth hwn. Mae gennym ni arbenigwyr ymroddgar mewn Gwirfoddoli, Llywodraethu a Chyllido. Mae gennym ni adnoddau, hyfforddiant, rhaglenni grant a rhwydweithiau rhagorol. Rwy'n eich hannog chi i'w cyrchu – maen nhw am ddim i chi, trwy garedigrwydd ein cyllidwyr.

Roedd nifer o uchafbwyntiau eleni. Gwnaethom dderbyn llwyth gwaith newydd sylweddol yn cynnwys rhaglenni grantiau yn ymwneud â Phwysau Tymor y Gaeaf mewn partneriaeth a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac ynghylch teimlo'n ynysig, Heneiddio'n Dda a chymorth i ofalwyr ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych. Cadwch eich llygad ar ein gwefan am fanylion y dyddiadau nesaf ymgeisio am grantiau.

Gwnaethom adnewyddu ein pencadlys hanesyddol, Canolfan Naylor Leyland, a'i gynnig i grwpiau cymunedol ei logi a'i ddefnyddio ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau, yn amrywio o briodasau i ioga a chwiltio! Dewch draw i weld y lle.

Moderneiddwyd ein harferion gweithio hefyd ar sail amgylchedd gwaith hybrid sy'n helpu'n staff yn y ffordd orau bosibl. Gwnaethom foderneiddio ein systemau Technoleg Gwybodaeth hefyd i gefnogi'r gweithio hyblyg hwn, tra'n deall bod gweithio wrth ddesg ac ysgogi ein gilydd yn parhau'n hanfodol.

Yn olaf, gwnaethom uwchraddio ac agor Neuadd y Farchnad yn Rhuthun fel marchnad gymdeithasol newydd sy'n cynnig stondinau marchnad yn rheolaidd yn ogystal â digwyddiadau a gwagle i bartneriaid ac ymwneud â mentrau newydd yn gysylltiedig â thlodi bwyd a gwastraff gyda'n partneriaid.

Fy niolch diffuant i'n staff, y Bwrdd, ein cyllidwyr, ein partneriaeth ac i bawb sy'n cefnogi ein gwaith!

Tom Barham
Prif Swyddog



GWIRFODDOLI
2021-2022

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yw'r corff arweinyddiaeth yn Sir Ddinbych sy'n hybu a chefnogi gwirfoddoli ac yn ysbrydoli gweithredu gwirfoddol.

Rydym yn:

- Dathlu a hyrwyddo gwirfoddoli
- Datblygu arferion da o ran rheoli gwirfoddoli, trwy gyfrwng hyfforddiant, darparu cyngor a rhwydweithio i rannu arferion da
- Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli a chyfateb gwirfoddolwyr i'r cyfleoedd hynny trwy ein porth ar-lein: https://sirddinbych.gwirfoddoli-cymru.net
- Gweithio â Sir Ddinbych yn Gweithio trwy Fwrdd Datblygu Cymuned y Rhyl i annog gwirfoddoli i gynorthwyo pobl i symud tuag at hyfforddiant a chyflogaeth
- Cynnal Rhaglen Bydis Digidol Sir Ddinbych

"Wedi rhoi Cymorth i
512
o Unigolion â Gwirfoddoli

"39
o Unigolion wedi'u Lleoli mewn Cyfleoedd Gwirfoddoli

Gwnaeth Gwirfoddolwyr Cymorth Cymunedol CGGSDd barhau i gefnogi unigolion yn eu cymunedau eu hunain yn ystod 2021-2022 gyda chasglu presgripsiynau, siopa bwyd a chymorth cyffredinol.



Gweithiodd Tîm Gwirfoddoli CGGSDd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych a Chymunedau Digidol Cymru yn ystod 2021-2022 i ddatblygu'r rhaglen Bydis Digidol Sir Ddinbych, cynllun gwirfoddoli digidol yn Sir Ddinbych sy'n helpu'r rhai angen cymorth â thechnoleg digidol.

Pwysleisioddd y pandemig fwy nag erioed bod cynhwysiant digidol yn hanfodol, ac y byddai'n hynod anodd cadw mewn cysylltiad â theulu, ffrindiau ac anwyliaid yn ystod y cyfnod clo heb ddefnyddio technoleg. Serch hynny, mae diffyg hyder wrth ddefnyddio ffonau clyfar a dyfeisiau llechen yn atal rhai pobl. Nod Bydis Digidol yw cyrraedd y rhai hynny sy'n teimlo eu bod wedi'u gadael ar ôl a'u helpu i ddysgu'r sgiliau digidol amhrisiadwy hyn.

Gall technoleg newid bywyd, wneud pobl yn fwy annibynnol a rhoi hwb i iechyd meddwl. **Mae Bydis Digidol Sir Ddinbych wedi'u recriwtio i gynnig cymorth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.**

Mae Bydis Digidol yn ysbrydoli pobl nad ydyn nhw'n gwybod am fuddion y rhyngrwyd i roi cynnig arni. Gall Bydis Digidol helpu i bontio'r bwlch rhwng dechrau arni a bod yn ddefnyddiwr hyderus. Maen nhw'n datblygu perthynas gefnogol ac yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad yn barhaus ynghylch sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd ac yn cefnogi pobl i gael y gorau o'u dyfeisiau digidol.

BYDIS DIGIDOL:

Gwirfoddolwr KP: *"Mae gwirfoddoli wedi bod yn agoriad llygad wrth ddysgu am brofiadau'r derbynnydd a pha help sydd ei angen arnyn nhw. Mae gwirfoddoli yn sicr wedi cynyddu fy hyder. Mae wedi bod yn braf ac wedi rhoi boddhad i fedru helpu ac rwy'n teimlo fy mod i wedi gwneud gwahaniaeth i rywun."*

Dinesydd wedi derbyn cymorth: *"Fe wnes i fwynhau sgwrsio efo Kimberly ac fe wnaeth hi ateb fy nghwestiynau digidol. Roedd Kim yn amyneddgar iawn efo fi."*

Gwirfoddolwr KJ: *"Mae perygl i rai yn ein cymdeithas gael eu gadael ar eu hôl. Daeth hyn yn fwy amlwg yn ystod y pandemig. Hoffwn ddefnyddio fy sgiliau i gynorthwyo."*



"Roedd **6 Bydi Digidol** **ar gael yn 2021-2022 i roi cymorth i unigolion fynd ar-lein yn eu cymunedau lleol.**

CYLLID CYNALIADWY

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn cynnig grantiau, cyngor a chymorth i fudiadau Trydydd Sector i gynorthwyo gyda'u cyllido a'u cynadliadwyedd.

Cefnogwyd 241 o ymholiadau cyllido yn Sir Ddinbych gan CGGSDd yn ystod 2021-2022.

Gwnaeth CGGSDd weinyddu 9 cronfa grantiau gan ddosbarthu cyfanswm o £246,630 gyda 87 o grantiau unigol wedi'u dyfarnu yn Sir Ddinbych.

AMAZING ARTS

"Roedd y plant a'r staff wrth eu BODDAU efo'r prosiect – roedd yn ffordd wych o ddeffro'r disgyblion ar y diwrnod cyntaf yn ôl yn yr ysgol. Os cynigir rhagor o weithdai, byddem yn bendant yn hoffi cymryd rhan eto! Diolch, Scott Roberts, Dirprwy Bennaeth." – *Ysgol Bryn*

"Ar fy ngwir, be fedra' i ei ddweud?!? Fe wnaethom ni fwynhau bob eiliad heddiw! Mae fy mochau i'n brifo o wenu cymaint wrth weld llawenydd pur y disgyblion. Diwrnod gwirioneddol ardderchog, diolch o galon."

"Roedd James ac Imi yn hollol anhygoel. Roedd eu hegni yr un mor drydanol yn y pum munud olaf ag yn y pum munud cyntaf. Roedden nhw mor hyblyg a chyfeillgar ac yn bwysicaf oll, yn hwyl!"

"Roeddwn i'n hoffi sut roedden nhw'n defnyddio'r eirfa a'r terminoleg cywir, ond mewn modd a oedd yn gwneud synnwyr i'r plant. Mae pob un aelod o staff wedi dweud faint wnaeth eu dosbarth nhw fwynhau eu sesiwn." – *Ysgol y Llys*

"Roedd hwn gymaint o brofiad hwyliog a gwych i'n hysgol ni. Diolch. Anhygoel." – *Ysgol Christchurch*

CANOLFAN MERCHED GOGLEDD CYMRU

Adborth gan ferched fu'n defnyddio'r gwasanaeth a gyllidwyd:

"Yn parhau i deimlo y byddai cwnsela yn helpu i oresgyn yr hyn sydd wedi digwydd, ond mae siarad efo chi wedi bod yn gymaint o gymorth i mi ."

"Mae wedi fy helpu gymaint ac rydych chi wedi bod yno i mi a'm rhoi i ar ben ffordd i gael gwasanaethau penodol fel cyfreithwyr a chyngor ariannol a nawr mae gen i'r holl wybodaeth yma ac rwy'n diolch yn fawr iawn i chi am hynny."

"Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn fodd i fyw, mae wedi bod yn gymorth anferthol ac o fudd go iawn i fy nhrafferthion mewn bywyd. Dydw i ddim wedi dod o hyd i unlle arall sydd mor gefnogol a defnyddiol â'r hyn rydw i wedi'i gael yma."

Roedd Grant Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu BCU 2021-2022 £87,500 dyfarnwyd 21 grant unigol

Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol 2021 £20,781 dyfarnwyd 11 grant unigol

Cronfa Deddf Eglwysi Cymru 2021-2022 £5,185 dyfarnwyd 11 grant unigol

Grant dan arweiniad Ieuenctid 2021-2022 £4,960
dyfarnwyd 4 grant unigol

Grant Cymunedau Dementia Ymwybodol 2021-2022 £12,772
dyfarnwyd 7 grant unigol

Pwysau Tymor y Gaeaf Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2021 £33,868
dyfarnwyd 9 grant unigol

Adborth gan rai o'r prosiectau:

GWEITHDY DINBYCH (CÔR CYMUNEDOL)

Yn dilyn ein sesiwn gyntaf yn ôl ym mis Tachwedd bu'n haelodau'n rhoi sylwadau ar Facebook –

ME: "Fe wnes i fwynhau neithiwr yn fawr iawn. Roedd yn braf bod yn ôl yn canu eto ac yn gweld ffrindiau."

NR: "Mor hyfryd canu efo'n gilydd X Rydw i wedi gweld colli hynny."

LJ: "Dydw i ddim yn mynd i unrhyw ddigwyddiadau eraill, dim ond y côr." "Rydw i wedi bod yn weddw am 10 mlynedd ac rydw i'n byw ar fy mhen fy hun ac yn ofalwr i'm chwaer sy'n oedolyn ag anawsterau dysgu. Mae'r côr wedi dod â llawenydd mawr i fy mywyd i gan fod canu efo pobl eraill yn hwyl ac yn llonni pawb. Mae'n un o oriau gorau fy wythnos i"

Grant Ynysigrwydd Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych 2021-2022 £22,224.25
dyfarnwyd 8 grant unigol
Nifer y gwirfoddolwyr fu'n cyfrannu at y gweithgareddau a gyllidwyd oedd 47 a nifer buddiolwyr y gweithgareddau a gyllidwyd oedd 593.

"Cyn dod yma roeddwn i yn gaeth i fy fflat, roeddwn i'n isel fy ysbryd a doeddwn i ddim yn cymdeithasu efo unrhyw un. Mae hyn yn rhoi rheswm i mi godi a mynd allan, a dechrau meddwl am y dyfodol" – *Dyn 19 oed fu'n ymwneud â'r prosiect.*

"Roedd hi'n braf bod yng nghwmni pobl eraill a chymysgu efo pobl, oherwydd dydw i ddim yn mynd allan o'r tŷ rhyw lawer a does gen i ddim llawer o ffrindiau." – *Merch 16 oed fu'n ymwneud â'r prosiect.*

"Dod yma yw'r un peth rydw i'n edrych ymlaen ato bob wythnos" – *Dyn ifanc 17 oed.*

"Doeddwn i ddim yn adnabod llawer o bobl eraill cyn hyn; dydw i ddim yn cadw mewn cysylltiad efo fy nheulu ac rydw i wedi bod yn teimlo'n unig ers bod yn byw ar fy mhen fy hun. Mae wedi bod yn dda i mi fynd allan a chyfarfod pobl eraill, dydw i ddim yn teimlo mor isel erbyn hyn." – *Dyn ifanc 22 oed.*

Grant Cymunedau o blaid pobl hŷn Cyngor Sir Ddinbych 2021-2022 £21,532.00
dyfarnwyd 6 grant unigol
Nifer y gwirfoddolwyr fu'n cyfrannu at y gweithgareddau a gyllidwyd oedd 35 a nifer buddiolwyr y gweithgareddau a gyllidwyd oedd 553.

Grant Seibiant i Ofalwyr Cyngor Sir Ddinbych 2021-2022 £37,808.65
dyfarnwyd 10 grant unigol
Nifer y gwirfoddolwyr fu'n cyfrannu at y gweithgareddau a gyllidwyd oedd 34 a nifer buddiolwyr y gweithgareddau a gyllidwyd oedd 681.

LLYWODRAETHU

Mae CGGSDd yn cynnig sbectrwm eang o gyngor ac adnoddau i'r Trydydd Sector i gefnogi strategaethau cyllido, ffurfio cwmni nid er elw a llywodraethu elusennau.

Rydym yn ymateb i alwadau gan amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol a mudiadau, llawer ohonynt wedi'u ffurfio drwy weithredu cymunedol. Gwelsom gynnydd mawr yn nifer y grwpiau newydd a ffurfiwyd yn ystod ac yn dilyn cyfnod Covid. Mae hyn wedi golygu mwy o alw am ein gwasanaethau ni, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn falch o fod wedi cynorthwyo â ffurfio 18 cwmni nid er elw yn Sir Ddinbych yn ystod y 12 mis diwethaf a buom yn allweddol yn strategaeth cyllido dechrau nifer o fentrau cymdeithasol lleol, gan sicrhau miloedd o bunnoedd i alluogi sefydlu rhai prosiectau newydd diddorol iawn ledled y sir.

Rydym ni'n gweithredu fel aseswyr a phanelwyr dyfarnu grantiau ar ran rhai rhaglenni cyllido cenedlaethol hefyd, gan ddefnyddio dull rhagweithiol ac arloesol o gynghori ynghylch datblygu busnes cynaliadwy, llunio ceisiadau am gyllid a strategaethau cyllido, gan gyflawni llawer o ddeilliannau cadarnhaol i'r gymuned leol.



Gwnaeth

107

o fudiadau gyrchu cyngor ac arweiniad arbenigol yn ystod 2021-2022

ASTUDIAETH ACHOS: WILLOW COLLECTIVE CIC

Darparwyd cyngor a chymorth mentora i grŵp gwirfoddol rheoli coedtir a chadwraeth tirwedd o'r Rhyl, Sir Ddinbych, yn 2021 gan ein Rheolwr Menter a Buddsoddi, i helpu efo cynllunio busnes a sefydlu Cwmni Budd Cymunedol yn ffurfiol â chyfansoddiad priodol.

Cofrestrodd Willow Collective CIC yn swyddogol ym mis Rhagfyr 2021 a datblygodd yn sylweddol yn 2022 i sefydlu gweithdy cymunedol a melin goed fasnachol yn Ffordd y Morfa, Y Rhyl.

Gan weithio â phartneriaid gwerthfawr yn y 'gydweithredfa' mae Willow yn dod â buddion llesiant sylweddol i gannoedd o gyfranogwyr o gymunedau lleol amrywiol, gan ddarparu rhaglen unigryw o hyfforddiant ac addysg gyfannol mewn trin coed ifanc, coedwigaeth, gardd farchnad, ailgylchu ac ailddefnyddio pren gwastraff.

Mae cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith, prentisiaethau a swyddi eisoes yn yr arfaeth ar gyfer 2023, ynghyd â rhaglen newydd o becynnau hyfforddiant wedi'u teilwra ac wedi'u hachredu gan Agored Cymru.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Nicky Hodge, *"Mae arweiniad arbenigol a chymorth parhaus CGGSDd i'n grŵp, a'r gofal tuag atom wrth i ni newid o grŵp gwirfoddol i gwmni cofrestredig, wedi cael gwared ar yr ofnau a chynyddu ein hyder i gredu y gallem ni gymryd y cam pwysig hwn ymlaen. Mae'r holl brofiad wedi bod yn amhrisiadwy."*

DYLANWADU AC YMGYSYLLTU

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, fel aelod o bartneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru, yn gweithio i hybu gwerth ac arbenigedd mudiadau Trydydd Sector gyda phartneriaid a rhaglenni gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym ni'n gweithio i sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael ei gydnabod fel partner gweithredol sy'n ymwneud â chymunedau a thrigolion Sir Ddinbych, a dylanwadu ar bolisi a dylunio a chomisiynu gwasanaethau.

Rydym ni'n hyrwyddo defnydd priodol cydgynhyrchu gwasanaethau, ac adrodd ar effaith hynny ar sail y gwerth cymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn hon gwnaethom adeiladu cysylltiadau strategol cryfach â staff gweithredol, uwch staff a Chynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych, yn cynnwys ystod o gyfarfodydd briffio, bod yn rhan o baneli cyfweliad a chynrychioli'r Trydydd Sector ar grwpiau yn cynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Rydym ni hefyd yn cyfeirio mudiadau Trydydd Sector unigol i gysylltu comisiynwyr a'r rhai a allai ddefnyddio eu gwasanaethau.

Rydym ni'n aelod o Bartneriaeth Cymru Ddiogelach yn cynrychioli Cynghorau Gweithredu Gwirfoddol sirol. Mae Tom Barham yn cadeirio cyfarfodydd Rhwydwaith Grŵp Ymarferwyr Llywodraethu Cymru gyfan. Ni yw sylfaenydd prosiect Archfarchnad Gymdeithasol Sir Ddinbych – Cogog. Gwnaethom gomisiynu adroddiad



ymchwil ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych yn edrych ar gydnerthedd y Trydydd Sector yn Sir Ddinbych.

Fel rhan o'r prosiect Cronfa Adfywio Cymunedol yn Neuadd y Farchnad, mae CGGSDd wedi helpu i ddod â Grŵp Cynulliad Hinsawdd at ei gilydd, yn ogystal ag ymgysylltu ag ysgolion lleol yn Rhuthun, Syniadau Mawr Cymru a Menter yr Ifanc Cymru i sefydlu prosiect menter gymdeithasol gydag ysgolion.

Fel y crybwyllwyd yn ein hadroddiad Cyllido Cynaliadwy, rydym ni'n bartneriaid â Chyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglenni cyllido newydd i fudiadau Trydydd Sector yn Sir Ddinbych.

Cofnododd CGGSDd

586

o Drafodion Ymgysylltu a Dylanwadu yn 2021-22

IECHYD A LLESIANT

Rydym ni'n ddiolchgar unwaith eto am gefnogaeth barhaus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyllido ein Rheolwr Partneriaeth Llesiant. Mae'r swydd hon yn darparu cyswllt strategol hanfodol rhwng y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector yn Sir Ddinbych.

RHWYDWAITH LLESIANT Y TRYDYDD SECTOR

Felly mae gwasanaeth Llesiant CGGSDd yn ased partneriaeth allweddol, ac mae ein gwaith wedi tyfu'n organaidd i fodloni anghenion a disgwyliadau ein cymunedau lleol. Mae'r flwyddyn hon wedi cynnwys recriwtio staff newydd, ac ailadeiladu Rhwydwaith Llesiant y Trydydd Sector i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cryfach yn dilyn Covid. Mae'r rhwydwaith bwysig hon yn creu ymgysylltu, cyfathrebu a phartneriaeth rhwng gwasanaethau statudol a'r Trydydd Sector.

Yn y chwe mis rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022, cynhaliwyd tri cyfarfod rhwydwaith llesiant, gyda 79 yn bresennol a pharhawyd â'r fformat llwyddiannus o gyflwyniadau ar thema benodol ac yna gyfle am ddiweddariadau i'r rhwydwaith am yr hyn mae pob mudiad yn ei wneud yn dda a'r meysydd lle mae angen cymorth, er mwyn cynnal eu heffaith. Mae cyfarfodydd Partneriaeth Llesiant y Trydydd Sector yn cynorthwyo CGGSDd i gael gwybodaeth allweddol am yr heriau yn y cymunedau, a'r hyn a allai gynrychioli anghenion heb eu bodloni, sy'n arbennig o bwysig yn yr amgylchedd ar ôl Covid.

Roedd y themâu yn cynnwys :

- Eiriolaeth a sicrhau derbyn hawliau
- Ymateb brys ac ymateb i argyfwng

DIGWYDDIADAU PWYSAU TYMOR Y GAEAF

Yn ystod gaeaf 2021-22 gwnaeth Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ddarparu cyllid i'r rhwydwaith Cynghorau Gweithredu Gwirfoddol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau. Penderfynodd CGGSDd greu cyfres o ddigwyddiadau 'Pwysau Tymor y Gaeaf' ar draws y sir gyfan, wedi'u hanelu at y cyhoedd. Dyluniwyd y digwyddiadau hyn ar y cyd â phartneriaid Trydydd Sector, a daeth dros 160 o'r cyhoedd i'r digwyddiadau ac ymgysylltu â gwasanaethau. Llwyddwyd i uchafu incwm, lleihau cwympiadau, cynnal asesiadau diogelwch tân a gosod larymau mwg. Canmolodd y cyhoedd y mudiadau a oedd yn bresennol gan ofyn i'r digwyddiadau gael eu cynnig yn amlach "gan nad ydi pobl yn gwybod beth sydd ar gael allan yna."

RHWYDWEITHIAU ERAILL

Bu CGGSDd yn cymryd rhan yn y rhwydweithiau strategol Iechyd a Gofal Cymdeithasol isod hefyd:

- Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal Conwy a Sir Ddinbych
- Grŵp Trosolwg ICAN
- Grŵp Llywio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dinbych
- Grŵp Rhanddeiliaid Anhwylder Sbectrwm Awtistig Conwy a Sir Ddinbych

A chyfranogodd hefyd yn y broses o ddylunio'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol newydd ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus.



SIR DDINBYCH DEMENTIA YMWYBODOL

Cynhaliwyd 12 sesiwn Ffrindiau Dementia rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2022, gan greu cyfanswm o 152 o Ffrindiau Dementia. Roedd y bobl a ddaeth i'r sesiynau yn cynnwys myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, aelodau teulu a ffrindiau unigolion sy'n byw â dementia, aelodau'r cyhoedd a disgyblion ysgolion lleol yn ardaloedd y Grwpiau Gweithredu Lleol. Gwnaeth un o'r plant ysgol (7 oed) ymrwymo i'r weithred ystyrlon i ddementia isod....

> **"Fel ffrind dementia byddaf yn eu helpu i gofio popeth a'u gwneud nhw'n hapus. Gwnaf wneud fy ngorau i'w helpu i gofio'r holl bethau hyfryd maen nhw wedi'u gwneud.**

Dyfarnwyd statws swyddogol 'gweithio tuag at fod yn Gymuned Ystyrlon i Ddementia' i Lanelwy ym mis Rhagfyr 2022, gan ymuno â Dinbych, Rhuddlan a Phrestatyn.

Cynhaliwyd tri chyfarfod Rhwydwaith Sir Ddinbych Dementia Ymwybodol ym mis Hydref, mis Rhagfyr a mis Chwefror gyda chyfanswm o 56 o bobl yn bresennol. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR) a gofalwyr pobl sy'n byw â dementia, ymhlith eraill.

Cyn y pandemig roedd grwpiau Gweithredu Dementia Ymwybodol wedi'u sefydlu yn Rhuthun, y Rhyl a Llangollen a gwnaed cyswllt a'r holl grwpiau hyn wedi Covid i ailsefydlu'r cynnydd a wnaed yn flaenorol. Mae Edeyrnion hefyd wedi dangos diddordeb, ond ni sefydlwyd grŵp hyd yma.

Cynhaliwyd rhaglen o hyfforddiant rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022. **Trefnwyd 17 cwrs yn dilyn ymgynghori â Rhwydwaith Sir Ddinbych Dementia Ymwybodol** ynghylch yr hyn fyddai'n fuddiol. **Gwnaeth cyfanswm o 158 o bobl ddilyn y cyrsiau hyfforddiant**, yn cynnwys gweithwyr Iechyd a Gofal Sir Ddinbych, gwirfoddolwyr, pobl o fudiadau Trydydd Sector a gofalwyr di-dâl.

Mae'r Daith Dementia Rhithiol wedi bod yn brofiad hyfforddiant llwyddiannus iawn y mae'r cyfranogwyr wedi'i gael yn fuddiol iawn, fel y gwelir o'r dyfyniadau isod:

> **"Roeddwn i'n meddwl bod y profiad cyfan yn anhygoel o'r dechrau i'r diwedd, ac wedi ei gyflwyno'n dda iawn"**

> **"Sesiwn ragorol a fe roddodd fewnwelediad da i mi o'r problemau mae fy mam yn eu wynebu'n ddyddiol"**

Rydym ni'n edrych ymlaen at weithio â'r grwpiau Gweithredu Dementia lleol sydd wedi arafu oherwydd y pandemig a gobeithiwn eu cael yn ôl ar y trywydd cywir.

Rydym ni'n gobeithio ehangu cynulleidfa'r cyfarfodydd Rhwydwaith Dementia Ymwybodol gan eu bod wedi bod yn llwyddiannus iawn yn lledaenu'r gair am y mentrau amrywiol ar draws Sir Ddinbych wedi'u dylunio i gynorthwyo'r rhai sy'n byw â dementia a thynnu sylw at y pethau hynny a allai fod ar goll yn ein cymunedau ar draws Sir Ddinbych.



Mae'r Grantiau Dementia yn parhau i gael eu lledaenu i gynorthwyo busnesau, mudiadau Trydydd Sector, grwpiau cymunedol ac unigolion i gynyddu ymwybyddiaeth am ddementia yn eu cymunedau. Roedd y gweithgareddau a gynhwyswyd yn y rownd hon yn cynnwys helfa drysor na'd fi'n angof, gyda'r blodau ar gyfer yr helfa drysor wedi'u gwneud gan drigolion cartref gofal a phlant ysgol lleol, prosiect celf rhyng-genhedlaeth, sesiynau gwyddoniaeth mewn cartref gofal a grŵp cymorth gofalwyr.

NEUADD Y FARCHNAD

NEUADD Y FARCHNAD RHUTHUN

Galluogwyd uwchraddio mewnol hirddisgwyliedig Neuadd y Farchnad Rhuthun, rhestredig Gradd 2, yn 2021 ar ôl i ni sicrhau cyllid o £80,000 drwy Gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru.

Ni oedd rheolwr prosiect cynllun gwaith darbodus i ailbwrpasu ac ailddefnyddio hen ddeunyddiau, lle roedd modd, ynghyd â deunyddiau newydd. Defnyddiwyd dyluniad sympathetig yn ofalus i greu gwagle defnydd hyblyg, sy'n cyd-fynd â'r arddull pensaernïol Fictoraidd yn effeithiol, tra'n cyflwyno rhai syniadau cyfredol i foderneiddio a diweddaru'r hyn a oedd wedi dod yn eiddo wedi'i anwybyddu i raddau helaeth. Yn ystod yr ail gyfnod clo Covid gwnaethom lwyddo i oresgyn llu o heriau er mwyn agor y drysau ar gyfer lansiad answyddogol ym mis Rhagfyr 2021. Erbyn mis Ionawr 2022 roeddem ni'n barod i gynnal ein marchnadoedd cyntaf ar y penwythnos, gan roi lle i amrywiaeth eang o fusnesau bach a mudiadau cymunedol i gael stondin ar gyfer y gymuned leol a thwristiaid.

Ym mis Medi 2022 ymunodd CGGSDd â Chwmni Budd Cymunedol Marchnadoedd Artisan Rhuthun i gynorthwyo i ddatblygu marchnadoedd wythnosol Neuadd y Farchnad yn ogystal â digwyddiadau cymunedol a sesiynau hyrwyddo a rheoli'r man coffi llesiant cymunedol sy'n cynyddu yn ei boblogrwydd ers ei lansio ddiwedd y Gwanwyn. Mae hon yn bartneriaeth ddiddorol, ac yn enghraifft berffaith o sut y gall mentrau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i gynyddu cyfleoedd busnes a chodi proffil cwmnïau nid er elw.

ARLOESI CYMUNEDOL SIR DDINBYCH

Mae prosiect Arloesi Cymunedol Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth rhwng asiantaeth Datblygu Gwledig Cadwyn Clwyd a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.


Mae ei weithgareddau'n canolbwyntio ar ddatblygu economaidd dan arweiniad y gymuned, ac mae'n galluogi cymunedau daearyddol a sectoraidd yn Sir Ddinbych i wireddu a meithrin arloesi ac agwedd entrepreneuraidd ar y lefel leol a'r lefel micro. Blaenoriaethau'r prosiect yw buddsoddi mewn sgiliau, buddsoddi mewn busnesau lleol a buddsoddi mewn cymunedau a lleoedd.

Cyllidir y prosiect gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig. Mae'r Gronfa hon yn rhaglen Llywodraeth y DU ar gyfer 2021/22. Ei nod yw cefnogi'r bobl a'r cymunedau mewn mwyaf o angen ar draws y Deyrnas Unedig, gan greu cyfleoedd i dreialu dulliau newydd a syniadau arloesol ar y lefel leol.

Cyfraniad CGGSDd i'r prosiect hwn yw 'Neuadd y Farchnad Rhuthun – o'r Hynafol i'r Dyfodol' ac mae'n brosiect peilot 12 mis sy'n darparu gweithgareddau sy'n cyfuno masnachu fel marchnad, meithrin sgiliau, hybu iechyd a llesiant, ymgysylltu â'r gymuned, rheoli bwyd dros ben, addysgu am leihau gwastraff, ymwybyddiaeth am y newid yn yr hinsawdd a menter gymdeithasol yn erbyn cefndir Neuadd y Farchnad ar ei newydd wedd ac mewn amrywiol leoliadau yn Sir Ddinbych. Ffurfiwyd tîm prosiect dawnus i reoli a chyflawni'r cysyniad arloesol hwn, gan ganiatáu i CGGSDd gryfhau fel entrepreneur cymdeithasol a gwneud cyfraniad unigryw i adfywio tref a sirol ar ôl Covid.








CRYNODEB ARIANNOL

SUT Y CAIFF DVSC EI ARIANNU



- Cyllid Seilwaith Llywodraeth Cymru
- Grantiau WCVA Pwysau'r Gaeaf
- Ymwybyddiaeth Dementia Sir Ddinbych
- Grantiau Eraill a Waned
- Pwysau'r Gaeaf Grantiau BCU
- Iechyd a Llesiant BCU
- Archfarchnad Gymdeithasol Sir Ddinbych
- Cronfa Adfywio Cymunedol y DU
- Gweithgareddau Eraill

£796,306
Cyfanswm Incwm 2021/22

GWARIANT	2021/22	2020/21
Costau Staff	£251,976	£275,494
Marchnata	£10,581	£12,778
Ffioedd Proffesiynol	£4,553	£3,139
TG a ffonau	£11,385	£10,372
Safle	£22,918	£10,204
Training and Seminar Expenses	£5,481	£10,204
Costua Prosiect	£49,586	£14,444
Costua Llywodraethiant	£8,995	£5,862
Costua Cefnogaeth	£42,182	£40,996
Costua Cyffredinol	£3,015	£2,625
Codi Arian	£14,645	£10,254
Dosbarthu Grantiau	£248,604	£87,298
CYFANSWM GWARIANT	**£673,921**	**£505,165**

£673,921
Cyfanswm Gwariant 2021/22

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf trwy Weithredu Gwirfoddol

Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through Voluntary Action

ADRODDIAD EFFAITH
2021 / 2022